ATODLEN 4

Rheoliad 26(2)

# RHAN 1

## GWYBODAETH AM Y DARPAR FABWYSIADYDD

**Gwybodaeth am y darpar fabwysiadydd**

**1.** Enw, rhyw, dyddiad a man geni a chyfeiriad gan gynnwys ardal yr awdurdod lleol.

**2.** Llun a disgrifiad corfforol.

**3.** A yw domisil neu gartref arferol y darpar fabwysiadydd mewn rhan o Ynysoedd Prydain ac os yw cartref arferol y darpar fabwysiadydd yno, ers pa bryd.

**4.** Tarddiad hiliol a chefndir diwylliannol ac ieithyddol.

**5.** Cred grefyddol, os oes un.

**6.** Y berthynas â'r plentyn (os oes un).

**7.** Asesiad o bersonoliaeth a diddordebau'r darpar fabwysiadydd.

**8.** Os yw'r darpar fabwysiadydd yn briod neu mewn partneriaeth sifil ac os yw'n gwneud y cais ar ei ben ei hun, asesiad o addasrwydd y darpar fabwysiadydd ar gyfer mabwysiadu a'r rhesymau dros hynny.

**9.** Manylion o unrhyw achosion blaenorol mewn llys teulu y bu'r darpar fabwysiadydd yn cymryd rhan ynddynt.

**10.** Enwau a chyfeiriadau tri chanolwr a fydd yn rhoi geirda personol am y darpar fabwysiadydd, na chaiff mwy nag un ohonynt fod yn berthynas iddo.

**11.** Enw a chyfeiriad ymarferydd meddygol cofrestredig y darpar fabwysiadydd, os oes un.

**12.** O ran y darpar fabwysiadydd —

(a) os yw'n briod, dyddiad a man y briodas;

(b) os yw wedi ffurfio partneriaeth sifil, dyddiad a man cofrestru'r bartneriaeth honno; neu

(c) os oes partner gan y darpar fabwysiadydd, manylion y berthynas honno.

**13.** Manylion unrhyw briodas, partneriaeth sifil neu berthynas flaenorol.

**14.** Coeden deulu gyda manylion y darpar fabwysiadydd, ei blant ac unrhyw frodyr a chwiorydd, gyda'u hoedran (neu eu hoedran pan fuont farw).

**15.** Cronoleg o'r darpar fabwysiadydd ers ei eni.

**16.** Sylwadau darpar fabwysiadydd am ei brofiad am y rhianta a gafodd yn ei blentyndod a sut y dylanwadodd hyn arno.

**17.** Manylion unrhyw brofiad sydd gan y darpar fabwysiadydd o ofalu am blant (gan gynnwys fel rhiant, llys-riant, rhiant maeth, gwarchodwr plant neu ddarpar fabwysiadydd) ac asesiad o'i allu yn y cyswllt hwnnw.

**18.** Unrhyw wybodaeth arall sy'n dangos sut y mae'r darpar fabwysiadydd ac unrhyw un arall sy'n byw ar ei aelwyd yn debygol o ymwneud â'r plentyn a leolir ar gyfer ei fabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd.

### Y teulu ehangach

**19.** Disgrifiad o deulu ehangach y darpar fabwysiadydd a'i rôl a'i bwysigrwydd i'r darpar fabwysiadydd a'i rôl a'i bwysigrwydd tebygol i'r plentyn a leolir ar gyfer ei fabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd.

### Gwybodaeth am gartref y darpar fabwysiadydd etc.

**20.** Asesiad o gartref a chymdogaeth y darpar fabwysiadydd.

**21.** Manylion aelodau eraill o aelwyd y darpar fabwysiadydd (gan gynnwys unrhyw blant i'r darpar fabwysiadydd p'un a ydynt yn preswylio ar yr aelwyd ai peidio).

**22.** Cymuned leol y darpar fabwysiadydd, gan gynnwys i ba raddau yr integreiddiodd y teulu, grwpiau o gymheiriaid, cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymdeithasol y teulu.

### Addysg a chyflogaeth

**23.** Manylion hanes addysg a chyraeddiadau'r darpar fabwysiadydd a sylwadau'r darpar fabwysiadydd ar sut y cafodd hyn ddylanwad.

**24.** Manylion hanes cyflogaeth y darpar fabwysiadydd a sylwadau'r darpar fabwysiadydd ar sut y cafodd hyn ddylanwad.

**25.** Cyflogaeth bresennol y darpar fabwysiadydd a'i farn am gyflawni cydbwysedd rhwng cyflogaeth a gofal plant.

### Incwm

**26.** Manylion incwm a gwariant y darpar fabwysiadydd.

### Gwybodaeth arall

**27.** Gallu'r darpar fabwysiadydd —

(a) i rannu hanes geni'r plentyn a materion emosiynol cysylltiedig;

(b) deall a chefnogi'r plentyn drwy deimladau posibl o golled a thrawma.

**28.** O ran y darpar fabwysiadydd —

(a) ei resymau dros ddymuno mabwysiadu plentyn;

(b) ei farn a'i deimladau am fabwysiadu a'i arwyddocâd;

(c) ei farn am ei gynneddf i rianta;

(ch) ei farn am ei gyfrifoldeb rhiant a'r hyn y mae'n ei olygu;

(d) ei farn am amgylchedd cartref addas i blentyn;

(dd) ei farn am bwysigrwydd a gwerth addysg;

(e) ei farn a'i deimladau ynghylch pwysigrwydd magwraeth grefyddol a diwylliannol plentyn;

(f) ei farn a'i deimladau am gyswllt o ran plentyn.

**29.** Barn aelodau eraill o aelwyd y darpar fabwysiadydd a'r teulu ehangach o ran mabwysiadu.

**30.** Unrhyw wybodaeth berthnasol arall a allai fod o gymorth i'r panel mabwysiadu neu'r asiantaeth fabwysiadu.